PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12:45 ar 18 HYDREF 2016, yn MedRus 1, Penbryn.

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd); Mrs Elizabeth France, Dirprwy Ganghellor; Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor; Dr Timothy Brain, Trysorydd; Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (heblaw am gofnod 15); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Ms Anne Davies; Mrs Janet Davies; Mr Keith Evans; Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts; Dr Hazel Davey; Yr Athro Neil Glasser (heblaw am gofnod 15); Dr Jenny Mathers; Ms Jackie Sayce; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; a Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu (o gofnod 10); Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid (ar gyfer cofnod 9); a Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio (ar gyfer cofnod 10 i 12).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth; Mr Richard John; a Dr Glyn Rowlands, Dirprwy Ganghellor.

1. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   Croesawyd Dr Hazel Davey, Ms Lauren Marks a Mr Rhun Dafydd i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau'r Cyngor.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r Athro Mike Foley, sef Athro yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

3. Cworwm

   1. Yn unol ag Ordinhad 15, y cworwm yn achos cyfarfodydd y Cyngor yw hanner aelodau gwirioneddol y corff llywodraethu i'r rhif cyfan nesaf i fyny, cyhyd â bod yr aelodau annibynnol yn y mwyafrif.

   2. O weld nifer yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd, nid oedd yr aelodau annibynnol yn y mwyafrif ac felly nid oedd cworwm i gytuno ar faterion busnes y cyfarfod. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.1, byddai materion y cyfarfod yn rhai ymgynghorol tan y ceid cworwm.

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni wnaed datganiad yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016 (COU1617-003).

CYNGHORWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor (COU1617-004).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. GOHEBIAETH

Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn sylwadau gan rai o academyddion Adran y Gyfraith a Throseddeg yn ymwneud ag ystyriaeth y Cyngor i ddiwygiadau i Ordinhad 23, a fyddai'n cynnwys ailenwi'r uned academaidd. Byddai'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach gyda'r eitem briodol ar yr agenda.

6. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

NODWYD

Yn ystod diwrnod encil cynharach y Cyngor, brifiwyd yr aelodau ar yr agenda Prevent. Byddai copïau o'r cyflwyniad, asesiad risg Prevent y sefydliad a'r cynllun gweithredu yn cael eu cylchredeg i'r aelodau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR DROS DRO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor Dros Dro (COU1617-005).

NODWYD

1. Cyhoeddwyd 'Arolwg Diamond' o Drefniadau Cyllid Myfyrwyr a Chyllido Addysg Uwch yng Nghymru ar 27 Medi 2016, yn argymell cyflwyno grantiau cynhaliaeth ar sail prawf modd yn lle'r nawdd presennol i ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Byddai'r arbedion yn darparu 'Difidend Diamond' i'r sector, er y byddai maint y cyllid ar gael yn amrywio yn ôl nifer y myfyrwyr cymwys i dderbyn cymorth yn y dyfodol.

2. Roedd Llywodraeth San Steffan yn symud ymlaen gyda chyflwyno'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) yn Lloegr. Gall Sefydliadau Addysg Uwch [SAU] Cymru fod yn rhan ohono, er na fyddant yn gallu cynyddu'r ffioedd a godir ar israddedigion Cartref / UE yn yr un modd â SAU yn Lloegr. Er bod Prifysgol Aberystwyth (PA) eisoes wedi cwrdd â gofynion Cyfnod Un y FfRhA o ganlyniad

i'r ymweliad llwyddiannus gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ystod mis Ebrill 2016, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn ystyried a ddylai'r sefydliad wneud cais i gymryd rhan yn ail gyfnod y FfRrA. Byddai argymhelliad ynglŷn â hyn yn dod gerbron y Cyngor ymhen amser (**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor Dros Dro).

8. SIARTER Y MYFYRWR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-009).

NODWYD

1. Mae'r Cyngor Cyllido'n mynnu bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn cytuno ar Siarter Myfyrwyr, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Cymeradwywyd Siarter Myfyrwyr cyfredol PA gyntaf gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2014, am y flwyddyn 2014–15. Adolygwyd Siarter y Myfyrwyr ymhellach ar gyfer blwyddyn academaidd 2015–16, ond nid ystyriwyd bod angen newidiadau.

2. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2016–17, roedd Undeb y Myfyrwyr wedi cynnig nifer o ddiwygiadau i drefn a geiriad Siarter y Myfyrwyr. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2016 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Senedd eu cadarnhau a'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar rai mân newidiadau a ymgorfforwyd i fersiwn ddiweddaraf yr adroddiad.

CYNGHORWYD

5. Y dylai'r diwygiadau arfaethedig i Siarter y Myfyrwyr gael eu cymeradwyo'n ffurfiol, ar yr amod bod y Senedd, yn y cyfarfod ar 19 Hydref 2016, yn fodlon â'r cynigion, ac yn amodol ar (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol):

    1. Disodli'r cyntaf a'r trydydd o'r pwyntiau bwled o dan 'Fe fydd y Brifysgol yn:' ac yn lle'r pwynt bwled cyntaf, cynnwys hyn: "Buddsoddi mewn cyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf er mwyn cynnal amgylchedd dysgu byw"; ac

    2. Aileirio'r trydydd pwynt bwled o dan 'Fe fydd y Myfyrwyr yn:' i hyn, "Darllen ac ymgyfarwyddo â'r wybodaeth a roddir i fyfyrwyr, gan gynnwys e-bost y Brifysgol ac AberDysgu".

9. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-006).

NODWYD

1. Er bod cyfanswm cyffredinol yr incwm am y flwyddyn academaidd 2015-16 yn anffafriol o ran y gyllideb, canlyniad cynilion cynyddrannol parhaus fyddai gwelliant i'r gwaelodlin o'i gymharu â'r gyllideb a adroddir yn y datganiadau ariannol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Gorffennaf 2016. Ond, oherwydd y symud i Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, bydd diffyg llawer mwy yn cael ei adrodd yn rhan o ganlyniadau statudol y Brifysgol oherwydd y gofyniad bellach i adrodd gwerthoedd actiwaraidd nad ydynt yn effeithio ar lif arian parod, gan gynnwys atebolrwydd pensiwn a'r hyn sydd gyfwerth yn ariannol â gwyliau

blynyddol nad yw'n cael ei gymryd. Mae holl Sefydliadau Addysg Uwch y Deyrnas Unedig yn gorfod symud i'r FRS 102 yn ystod y cylch adrodd cyfredol.

2. Yn ystod ei gyfarfod ar 17 Hydref 2016, roedd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth wedi ystyried perfformiad ariannol Canolfan y Celfyddydau a ffermydd y Brifysgol, ac wedi gofyn i Weithrediaeth y Brifysgol wneud gwaith pellach i ddatblygu neu symud ymlaen y strategaethau y cytunwyd arnynt yng nghyswllt y ddwy ganolfan gost sylweddol hyn.

3. Yn rhan o'r gwaith ar y datganiad TAW chwarterol, roedd yr Adran Gyllid wedi nodi na chafodd TAW ei gymhwyso'n gywir i anfonebau a gyflwynwyd i ddarparwyr trydydd parti. Bydd darpariaeth addas felly yn cael ei neilltuo yn y datganiadau ariannol am 2015-16. Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn trafod â HMRC gyda golwg ar ddatrys y mater. Bydd y drefn gymwys yn cael ei hadolygu'n fanwl yn rhan o archwiliad cyntaf y cyfrif TAW.

4. Er ei bod yn ymddangos yn yr adroddiad a ddrafftiwyd bod y Brifysgol eisoes wedi cytuno ar dargedau codi arian ar gyfer ei phrif ddatblygiadau cyfalaf, cadarnhawyd y gofynnid i'r Cyngor ystyried materion o'r fath fel sy'n briodol yng nghyswllt pob prosiect cyfalaf.

10. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-007).

NODWYD

1. Bydd yr un nifer yn fras o israddedigion Cartref / UE amser llawn yn cael eu derbyn ar gyfer mynediad ym mis Medi 2016 â'r flwyddyn flaenorol, ond ni fyddai union nifer y cofrestriadau'n cael eu cofnodi'n ffurfiol tan ddyddiad cyfrifiad blynyddol y sector ar 01 Tachwedd. Er bod canlyniad refferendwm aelodaeth y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd wedi achosi cyfradd drosi is o blith myfyrwyr yr UE, roedd niferoedd y myfyrwyr Cartref wnaeth drosi yn llai oherwydd bod sefydliadau eraill wedi dod i mewn i'r Clirio ar y funud olaf.

2. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 11 Hydref 2016 y bydd myfyrwyr o'r UE sy'n bwriadu dechrau astudio o fis Medi 2017 yn dal i dderbyn y benthyciadau a'r grantiau a gynigir ar hyn o bryd tan iddynt gwblhau eu cyrsiau. Croesawyd y datblygiad hwn gan yr aelodau a byddai'n rhoi sicrwydd i fyfyrwyr yr effeithir arnynt yn y cyfnod wedi i aelodaeth y DU o'r UE yn dod i ben.

3. Cafwyd gwelliant yn nagosyddion allanol y Brifysgol dros yr haf, yn enwedig yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, lle cynyddodd sgôr cyffredinol y sefydliad o 83 i 92 y cant. Priodolwyd y llwyddiant i ymgyrch Rho Wybod Nawr a'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr).

11. ADRODDIAD AR Y PORTFFOLIO ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-008).

NODWYD

1. Roedd y brifysgol, trwy'r Grŵp Nawdd Marchnata a Denu Myfyrwyr, wedi comisiynu'r ymgynghorwyr marchnata, The Knowledge Partnership, i wneud arolwg portffolio o bob un o'r pum Athrofa yn y Brifysgol. Ers hynny, derbyniwyd adroddiadau ar ddwy Athrofa, ac roedd arolygiadau'r tair Athrofa arall yn mynd rhagddynt.

2. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor amlinellwyd y drefn ragarweiniol newydd a oedd yn cael ei datblygu i sicrhau bod argymhellion adroddiadau'r cwmni ymgynghorol yn cael eu symud ymlaen fel sy'n briodol heb oedi gormodol, gan gyfrannu i'r prosesau sy'n dod o fewn i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Academaidd [PCDA] ar hyn o bryd. Yn unol â gofynion y llawlyfr Ansawdd Academaidd, ymgynghorir â'r prif randdeiliaid mewnol yn rhan o'r drefn o wneud penderfyniadau.

3. Byddai'r drefn ragarweiniol yn cynnwys ymarfer pen-desg yn bennaf, i edrych ar oblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol i bortffolio academaidd y Brifysgol. Y teimlad oedd y byddai hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Brifysgol cyn y byddai cynnig yn cael ei ganiatáu i fynd yn ei flaen i'r brif drefn o adolygu portffolio dan arweiniad y PCDA.

12. DATGANIAD A MATRICS ARCHWAETH RISG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-010).

NODWYD

1. Yn unol â pholisi Rheoli Risg y Brifysgol, gwahoddir y Cyngor i adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg yn ei gyfarfod llawn cyntaf ymhob blwyddyn academaidd.

2. Yn rhan o'r drefn hon, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi adolygu'r dogfennau ac roeddent yn awgrymu mân newidiadau i'r Datganiad Archwaeth Risg a'r Matrics Risg.

CYNGHORWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i'r Datganiad Archwaeth Risg (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio)

13. DIWRNOD ENCIL Y CYNGOR

NODWYD

1. Cynhaliodd y Cyngor ddiwrnod encil llwyddiannus brynhawn 17 Hydref a bore 18 Hydref 2016. Ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd mewn atodiad i'r cofnodion hyn.

2. Roedd y diwrnod encil yn gyfle i aelodau'r Cyngor i gael sgwrs fanwl ynghylch strategaeth y sefydliad mewn cyd-destun anffurfiol, gyda phwyslais penodol ar gyflawni cynaliadwyedd sefydliadol a sicrhau cynnydd ar draws nifer o elfennau.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cadarnhau'r cyfeiriad a bennwyd yn ystod y diwrnod encil drwy gyfrwng y penderfyniad isod, i'w rannu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol (**GWEITHREDU:** Grŵp Gweithredol y Brifysgol):

Croesawodd y Cyngor y canlyniad cadarnhaol iawn yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr a llongyfarch Gweithrediaeth a staff y Brifysgol ar y canlyniad rhagorol hwn, sy'n golygu bod Prifysgol Aberystwyth yn bedwaredd ymhlith prifysgolion confensiynol Prydain a'r orau yng Nghymru o ran bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr.

Cydnabu'r Cyngor fod pob prifysgol yn y Deyrnas Gyfunol yn gweithredu mewn amgylchedd hynod heriol. Mae demograffeg, y ffaith bod manteision ariannol addysg prifysgol o ran cyflogau'n mynd yn llai, nifer y myfyrwyr sydd bellach yn dewis byw gartref a chanlyniadau Brexit i gyd yn dueddiadau niweidiol. Yng Nghymru, mae'r bwlch ariannol rhyngom a phrifysgolion tebyg yn Lloegr, ynghyd â'r manteision eraill sydd i fyfyrwyr sy'n astudio yno, yn anfantais i'r sector.

Er hynny, mae'r Cyngor yn argyhoeddedig fod y gwelliannau ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhai gwirioneddol a bod y Brifysgol yn bendant ar y trywydd iawn tuag at ddyfodol cynaliadwy, cystadleuol. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig buddion eithriadol ac mae'r Cyngor yn benderfynol y dylid cyfleu'r manteision hyn yn fwy effeithiol er mwyn tynnu sylw at fanteision penodol astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth a dilyn pob cwrs unigol.

Mewn marchnad heriol sy'n newid o hyd, roedd y Cyngor o'r farn bod camau calonogol wedi'u cymryd i nodi'r pynciau craidd mwyaf llwyddiannus a gynigir. Mae'n disgwyl gweld rhagor o ddadansoddi ar y rhesymau dros eu llwyddiant, a'r camau y mae'n rhaid i'r Athrofeydd a'r Adrannau eu cymryd i sicrhau bod pynciau eraill yn cyrraedd yr un safon. Mae'r nod yn glir: cynnig y pynciau sydd fwyaf tebygol o ddenu myfyrwyr, a lle bo'r Brifysgol yn darparu addysgu rhagorol, manteisio ar sgiliau ei staff, a chyngor a chymorth cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Cyngor yn disgwyl cydweithrediad llawn gan yr Athrofeydd, yr Adrannau a'r staff wrth ddadansoddi'r pynciau sydd eisoes yn cael eu cynnig, ac yn edrych ymlaen at weld adroddiadau pellach ar benderfyniadau'r Pwyllgor Datblygu a Chynllunio Academaidd.

Croesawodd y Cyngor y strategaeth denu myfyrwyr ar ei newydd wedd sy'n cynnwys nifer o elfennau neilltuol, a chaiff pob un ei datblygu drwy gydweithio agos iawn rhwng y Weithrediaeth, yr Athrofeydd, yr Adrannau, y staff a'r myfyrwyr. Roedd y Cyngor o'r farn bod y wefan newydd yn well o lawer, ac mae'n edrych ymlaen at weld strategaeth marchnata a chyfathrebu gryfach, ac at weld y strategaeth honno'n cael ei rhoi ar waith, er mwyn dwyn ynghyd fanteision penodol astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Cyngor yn croesawu ymhellach y gofynion mynediad wedi'u teilwra ar gyfer rhaglenni unigol.

Nododd y Cyngor fod Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi dod yn hynod bwysig, ac mai hynny a ysgogodd y gwelliant sylweddol yn safle cyffredinol Prifysgol Aberystwyth. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ymdrechion hyn barhau, nid yn unig i wella'r gyfradd bodlonrwydd cyffredinol, ond hefyd i sicrhau gwelliannau yn elfennau unigol yr arolwg ym mhob adran. Mae'r Cyngor yn ffyddiog y bydd yr Athrofeydd a'r Adrannau yn canolbwyntio ar y dasg bwysig hon gyda chydweithrediad y myfyrwyr er mwyn sicrhau sgôr hyd yn oed yn well.

Nododd y Cyngor bwysigrwydd penodol addysgu yn sgil y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu sydd yn yr arfaeth. Croesawodd y Cyngor y sgôr a roddwyd i'r addysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn Arolwg Cenedlaethol y

Myfyrwyr. Roedd y Cyngor o'r farn bod addysgu rhagorol yn arbennig o bwysig er mwyn cynnig addysg eithriadol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mae'n gwahodd yr Is-Ganghellor i ystyried sut y gellir cydnabod cyfraniad y staff yn arbennig.

Nododd y Cyngor, wrth adolygu cyllideb 2016–17, bod y recriwtio ar gyfer y flwyddyn yn cwrdd i raddau helaeth darpariaethau'r gyllideb honno. Er hynny, pwysleisiodd y Cyngor fod angen gwneud pob ymdrech i gynyddu incwm y Brifysgol i'r eithaf ac i leihau costau cynnal y sefydliad lle bo hynny'n bosib, gan gynnwys nodi meysydd sy'n cydweddu rhwng adrannau Gwasanaethau Proffesiynol er mwyn gallu cefnogi addysgu, ysgolheictod ac ymchwil yn well.

Wrth fynegi hyder ynghylch cynaliadwyedd y Brifysgol, croesawodd y Cyngor y camau a gymerwyd o ran y Cynllun Adfer a Chynllun Llwyddiant y Myfyrwyr, ac roedd yn disgwyl gweld ymdrechion i'w rhoi ar waith yn parhau. Mae'r Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar ddenu myfyrwyr, enw da a chynaliadwyedd. Gyda'i gilydd, maent yn datblygu sylfaen Cynllun Strategol y Brifysgol 2012–17 ymhellach, ac o safbwynt diriaethol maent yn sail i lwyddiant Prifysgol Aberystwyth yn y dyfodol.

14. ORDINHADAU

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-011); a

2. Nodyn gwybodaeth gan academyddion Adran y Gyfraith a Throseddeg (COU1617-23).

NODWYD

3. Dros yr haf, cytunwyd ar nifer o newidiadau cyfundrefnol mewn dwy athrofa academaidd ac roeddent wedi eu gweithredu. Er mwyn sicrhau bod Ordinhadau'r Brifysgol yn adlewyrchu'r strwythur diweddaraf, gofynnwyd i'r Pwyllgor Siarter i ystyried y diwygiadau canlyniadol i Ordinhad 23 trwy ohebiaeth yn ystod mis Medi 2016.

4. Ar ôl ystyried y diwygiadau a gynigiwyd, argymhellodd y Pwyllgor Siarter y dylai'r Senedd eu cadarnhau a'r Cyngor eu cymeradwyo. Ond, dewisodd un o aelodau'r Senedd ar y Cyngor atal pleidlais, gan nodi nad oedd y corff llywodraethu academaidd wedi cael cyfle i drafod a chadarnhau'r newidiadau cyfundrefnol, yn unol â'i brif gyfrifoldebau.

5. Roedd nifer o academyddion y Gyfraith a Throseddeg wedi cyflwyno nodyn gwybodaeth i'w ystyried gan y Cyngor ynglŷn ag ailenwi Adran y Gyfraith a Throseddeg yn Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth. Yn y nodyn gwybodaeth mynegwyd pryder am y drefn – ac yn benodol bod y Cyngor yn cael cais i gymeradwyo'r ailenwi heb i'r Senedd ystyried y mater yn gyntaf.

CYNGHORWYD

6. I aros am ganlyniad ystyriaeth y Senedd o'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 23 yn ystod y cyfarfod ar 19 Hydref 2016, a gwahodd Cadeirydd y Cyngor i ddefnyddio'i ddoethineb yn briodol o ran y dull i symud trefn gymeradwyo'r corff llywodraethu yn ei blaen yng ngoleuni argymhellion y Senedd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

15. CYMERADWYAETH FFURFIOL I BENDERFYNIADAU

PENDERFYNWYD

Gan fod cworwm yn bresennol, y dylai'r materion a gwblhawyd eisoes ar lefel ymgynghorol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol, sef cofnodion: 3; 8.5; 12.3; 13.3; and 14.6.

16. IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1617-012).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ddarlun o'r digwyddiadau'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch yn y cyfnod rhwng Ionawr ac Awst 2016, gan gyflwyno ystod o Ddangosyddion Perfformiad Alleddol perthnasol a gafodd eu mabwysiadau gan yr adran i fonitro cydymffurfiaeth.

17. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG COFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-021).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

18. PENODI IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-013).

NODWYD

Roedd y drefn o benodi Is-Ganghellor nesaf y Brifysgol yn symud yn ei blaen yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Dewis a sefydlwyd gan y Cyngor i arwain y drefn.

19. ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr (COU1617-014).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

20. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-015).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y defnyddiodd y Cadeirydd y Pwerau Gweithredol y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 6.11.

2. Y materion a gymeradwywyd gan y Cadeirydd trwy Gamau Gweithredol oedd:

    1. penodi'r Athro Jo Crotty a'r Athro Tim Woods yn Gyfarwyddwyr Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth ac Athrofa Llenyddiaeth Ieithoedd, a'r Celfyddydau Creadigol yn eu trefn;

    2. cyflwyniad y Brifysgol i ymgynghoriad y Cyngor Cyllido ar ddrafft y Cod Rheoli Ariannol;

    3. diwygiadau i gynllun Ffioedd a Mynediad arfaethedig y Brifysgol am 2017–18;

    4. cytundeb cydweithrediadol gydag AIEC Ltd ynglŷn â chaffael contractwr i'r gwaith adeiladu sydd i'w wneud ar gyfer y biobanc hadau yng Ngogerddan;

    5. nifer o newidiadau cyfundrefnol yn y brifysgol, yn bennaf yn gysylltiedig ag Athrofa Llenyddiaeth Ieithoedd, a'r Celfyddydau Creadigol ac Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion;

    6. cytundeb prydles a gynigiwyd rhwng y Brifysgol ac AIEC Ltd, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Comisiwn Elusennau;

    7. penodi'r Athro Judy Broady-Preston yn Gyfarwyddwr Athrofa Datblygiad Proffesiynol; a

    8. diwygiadau i gylch gorchwyl Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg.

21. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1617-016):

1. Pwyllgor Archwilio a Risg (07 Hydref 2016); a

2. Grŵp Gweithredol y Brifysgol (21 Mehefin a 26 Gorffennaf 2016).

NODWYD

3. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

ATODIAD – CRYNODEB O'R MATERION A DRAFODWYD YN YSTOD Y DIWRNOD ENCIL

Trafodwyd y materion isod gan Gyngor Prifysgol Aberystwyth yn ystod ei ddiwrnod encil ar 17 ac 18 Hydref 2016.

A. TUAG AT BRIFYSGOL GYNALIADWY A CHYSTADLEUOL

Rhoddwyd cyfres o gyflwyniadau rhyng-gysylltiedig i'r aelodau.

Nodwyd:

1. Mae'r sector cyfan yn dal i fod yn ansefydlog, ac mae'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch pryd y bydd Brexit yn digwydd a'r effeithiau tebygol ar brifysgolion yn dwysáu'r ansefydlogrwydd hwnnw. Tra bo effeithiau ariannol posib Brexit yn cael eu modelu, nid yw Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol eto wedi amlinellu'r setliad y mae'n gobeithio'i sicrhau.

2. Mae'r bwlch rhwng enillion graddedigion a'r rhai nad oes ganddynt radd yn cau, ac mae hynny'n gwanhau'r ddadl o blaid cael addysg prifysgol. Ac ystyried hynny, ynghyd â demograffeg sy'n newid ac sy'n golygu y bydd llai o unigolion yn cyrraedd oedran prifysgol dros y blynyddoedd nesaf, mae cylchoedd denu myfyrwyr yn debygol o fynd yn fwyfwy cystadleuol os yw prifysgolion am sicrhau'r twf angenrheidiol yn niferoedd y myfyrwyr i gynnal eu gweithrediadau cyfredol.

3. Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, mae'n rhaid i'r Brifysgol leihau costau ac ar yr un pryd gynyddu incwm. Yn y cyd-destun hwn, trafododd yr aelodau'r cynnydd yn unol â'r cynllun adfer, a nodwyd elfennau ychwanegol sy'n mynd rhagddynt fel mater o flaenoriaeth.

4. Hyd yma, mae'r Brifysgol wedi bod yn cynnal ei sylfaen gostau yn nhermau'r bunt go iawn, ac nid yw'r arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd hyd yma ond yn mynd i'r afael â phwysau chwyddiant. O'r herwydd, mae angen mwy eto o arbedion effeithlonrwydd.

5. Mae'n rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ei harlwy yn ddeniadol i fyfyrwyr. Mae 'The Knowledge Partnership' wedi eu comisiynu i adolygu'r portffolio academaidd ac maent eisoes wedi cyflwyno adroddiadau ar ddwy athrofa. Bydd angen cynnal trafodaethau yn yr Athrofeydd yn awr ynghylch sut i fwrw ymlaen â'r sylwadau yn yr adroddiadau hyn yn rhan o'r broses adolygu portffolios. Efallai y bydd rhai o'r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu gwneud yn rhai anodd ond angenrheidiol, yn enwedig lle bo'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cynnig rhaglen y mae ei pherfformiad yn wan mewn marchnad lle mae'r galw'n wan ymhlith darpar fyfyrwyr.

6. Mae 'Cynllun Llwyddiant y Myfyrwyr' bellach yn ei ail flwyddyn. Mae nifer o feysydd eisoes wedi cyflawni eu hamcanion ac wedi eu dirwyn i ben, tra bo eraill ond newydd eu sefydlu. Yn rhan o 'Gynllun Llwyddiant y Myfyrwyr', mae'r elfen 'Rho Wybod Nawr' yn sicrhau bod y myfyrwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu gweld ymateb yn syth bin i'r materion a godir ganddynt.

7. Bydd y bwlch cyllido rhwng prifysgolion yng Nghymru a Lloegr yn parhau i dyfu oherwydd bod prifysgolion yn Lloegr yn cael codi mwy na £9,000 mewn ffioedd dysgu yn unol â chwyddiant ar ôl iddynt gwblhau Cam Un y 'Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu' newydd. Mae Prifysgol Aberystwyth eisoes wedi cwblhau

Cam Un, ond fel prifysgolion eraill Cymru ni chaiff gynyddu'r ffioedd dysgu o ganlyniad. Mae'r Brifysgol wrthi'n ystyried a yw am gymryd rhan yng Ngham Dau y Fframwaith.

8. Mae dau dîm ar wahân bellach yn bwrw ymlaen â gwaith denu myfyrwyr i'r Brifysgol. Y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) sy'n arwain y cyntaf ac mae'n canolbwyntio ar y myfyrwyr a fydd yn cychwyn yn 2017. Mae'r ail yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth fwy hirdymor, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyllid.

9. Pennwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol i bob adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer blwyddyn academaidd 2016–17. Bydd y rhain yn sicrhau bod yr adrannau'n cyd-fynd yn well er mwyn hwyluso addysgu, ysgolheictod ac ymchwil. Mae cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol newydd hefyd yn cael ei diffinio, a fydd yn adrodd i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu), er mwyn manteisio i'r eithaf ar feysydd sy'n cydweddu.

10. Mae system dreigl wedi'i chyflwyno ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) sy'n darparu cofnod o weithgarwch ymchwil pob aelod o'r staff ers mis Ionawr 2014. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awr yn golygu y gall y Brifysgol adnabod cyfraniad yr aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi ar gontractau ymchwil a / neu addysgu ac ymchwil, ac i asesu'n well eu cyfraniadau tuag at y FfRhY. Er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn perfformio'n well yn unol â'u cryfderau, dilynir proses i roi iddynt cytundebau ddysgu neu addysgu ac ysgolheictod.

B. CAMPWS ARLOESI A MENTER ABERYSTWYTH

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau yn crynhoi'r ysgogiadau strategol dros greu Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, a'r cynnydd hyd yma o ran gwireddu'r prosiect.

C. YMGYRCH ATAL

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar y 'Ddyletswydd Atal' a chyfrifoldebau'r Brifysgol – ac yn sgil hynny, y Cyngor – fel Corff Addysg Uwch Perthnasol yn ôl diffiniad Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

D. Y DIWEDDARAF AM EFFEITHIOLRWYDD LLYWODRAETHU

Dosbarthwyd canlyniadau'r holiadur ar-lein a gynhaliwyd ymhlith aelodau'r Cyngor ddiwedd mis Medi / ddechrau mis Hydref. Yn unol â'r argymhelliad yn yr adolygiad diweddaraf o effeithiolrwydd llywodraethu, bydd yr holiadur yn cael ei gynnal bob blwyddyn o hyn allan.

Diolchwyd i'r aelodau am barhau i weithio'n galed dros y Brifysgol – gwaith a wneir yn aml iawn yn ddi-dâl. Yn ystod y drafodaeth wedi hynny, nodwyd:

1. Roedd yr holiadur unwaith eto wedi nodi bod angen adolygu maint a chyfansoddiad y corff llywodraethu. Roedd Pwyllgor y Siarter yn bwrw ymlaen â hynny, a byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno maes o law.

2. Cyhoeddir cyfraddau presenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y datganiadau ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Anogwyd pob aelod i fod yn bresennol mewn cynifer o gyfarfodydd â phosib.

3. Byddai amseriad yr holiadur yn cael ei adolygu at y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr sy'n aelodau yn cael digon o brofiad o waith y Cyngor cyn cwblhau'r holiadur.

E. DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI

Rhoddwyd cyflwyniad byr i'r aelodau, a nodwyd:

1. Mae gan y Brifysgol gronfa ddata sylweddol o alumni ac mae'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn awr yn gweithio gyda'r adrannau academaidd i'w gwneud yn haws defnyddio'r data hwn a gwneud defnydd gwell o'r alumni sy'n awyddus i helpu'r Brifysgol.

2. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ail-lansio clwb etifeddiaeth y Brifysgol – Clwb 1872 – erbyn haf 2017.

3. Mae gwaith ar y gweill i ymchwilio i gyfleoedd cyllido o safbwynt Pantycelyn a'r Hen Goleg.